**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 28 Chwefror 2017**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw fater brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2017 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | STRATEGAETH Y GYMRAEG | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Strategaeth arfaethedig ar gyfer y Gymraeg.* |
| **6** | CYNNIG AR GYFER CYTUNDEB CYDWEITHREDOL CEFNOGI POBL CSDd A CHLWYD ALYN | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ar gyfer Cytundeb Cydweithredol Cefnogi Pobl (CP) CSDd a Chymdeithas Tai Clwyd Alyn (CTCA) i gyflawni'r prosiect tai â chymorth Y Dyfodol.* |
| **7** | AMCANION LLES CYNGOR SIR DDINBYCH | ***PENDERFYNWYD*** *bod yr Amcanion Lles sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad yn cael eu mabwysiadu gan y Cyngor.* |
| **8** | GWELEDIGAETH TWF A STRATEGAETH AR GYFER ECONOMI GOGLEDD CYMRU | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) cadarnhau'r model llywodraethu rhanbarthol a ffefrir o gydbwyllgor statudol ar gyfer datblygiad pellach.*<br><br>*(b) cyfarwyddo swyddogion i weithio gyda chydweithwyr mewn cynghorau partner yng Ngogledd Cymru i ddatblygu cyfansoddiad a chytundeb rhyngasiantaethol ar gyfer y Cydbwyllgor arfaethedig ac i ddod ag adroddiad yn ôl i'r Cyngor ei ystyried gan ddechrau ar fodel cydbwyllgor statudol gyda phum cyngor partner, o fewn y tri mis cyntaf o dymor newydd y Cyngor, a* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 28 Chwefror 2017**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(c) bod y Cabinet yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3 yr adroddiad) fel rhan o'u hystyriaethau.* |
| **9** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2016/17 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb;*<br><br>*(b) cymeradwyo trosglwyddo £0.150m o danwariant Cyfleusterau, Asedau a Thai i Gronfa Datblygiad Glan y Môr y Rhyl a gedwir yn ganolog a'i ddefnyddio i helpu llif arian nifer o brosiectau, rhai ohonynt eisoes wedi'u cymeradwyo mewn egwyddor, ac*<br><br>*(c) nodi'r defnydd arfaethedig o danwariant gwasanaeth lle nodir ac y gofynnir am gymeradwyaeth ffurfiol pan fydd yr union ffigurau yn hysbys fel rhan o'r Adroddiad Canlyniadau Terfynol.* |
| **10** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |
| **11** | DATBLYGIAD GLAN Y MÔR Y RHYL: CAM 1B ELFENNAU MASNACHOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo, mewn egwyddor, yn dibynnu ar drafodaeth derfynol a chytundeb cyfreithiol, y cynnig a nodwyd i ffurfio cytundebau prydles i gefnogi datblygiad gwesty 73 ystafell wely, tafarn a bwyty fel rhan o gynllun adfywio Glan y Môr y Rhyl. Gan gymeradwyo'r canlynol mewn egwyddor-*<br><br>- *bod y Cyngor yn cyflawni cytundebau prydlesu cefn wrth gefn am 25 mlynedd i gefnogi datblygiad gwesty 73 ystafell wely, tafarn deuluol a bwyty ar lan y môr y Rhyl, yn amodol ar gytundeb terfynol a derbyn elw rhent wedi hynny'n cynyddu gyda chwyddiant RPI bob pum mlynedd* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | - *i ddirprwyo awdurdod i gwblhau'r trefniadau terfynol i'r Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro, gyda'r cytundeb terfynol yn cael ei gymeradwyo gan Arweinydd y Cyngor (fel deilydd portffolio), gan dybio nad oedd y cytundeb terfynol yn waeth na'r telerau a nodwyd yn yr adroddiad hwn.*<br><br>- *i gytuno i drosglwyddo'r safle rhydd-ddaliad am ddim cost a bod y datblygwr yn gosod y gwerth a amcangyfrifwyd o'r derbyniad cyfalaf sy'n deillio o werthu'r dafarn/bwyty yn erbyn y gost o ddatblygu'r safle cyfan a'r gwesty*<br><br>*i gytuno i sefydlu cronfa wrth gefn i roi'r elw rhent ynddo i ddechrau. Bydd hyn yn cronni cyllid y gellid ei ddefnyddio i liniaru risg ariannol y cyngor yn y dyfodol. Bydd y gronfa wrth gefn yn cael ei hadolygu o bryd i'w gilydd gan y Swyddog A.151 a fydd yn gwneud argymhellion ar gyfer ei ddefnydd yn y dyfodol.* |